

AR WERTH

Aquila Apartments, Bae Caerdydd



Yn ardal boblogaidd Bae Caerdydd, cynigir fflat **un ystafell wely** deniadol a chyfoes ar y 5ed llawr.

Mae'n agos at Orsaf Drenau Bae Caerdydd, gyda chysylltiadau trafnidiaeth ardderchog â chanol y ddinas a'r M4. Mae o fewn pellter cerdded i farrau, bwytai, siopau lleol, sinema a Chanolfan Mileniwm Cymru.

Gyda mynedfa dawel a phreifat, mae'r eiddo yn olau ac awyrog, wedi'i addurno i safon dda. Mae gan y fflatiau yma wasanaeth porthor, lifftiau cymunedol, mynediad diogel, gwydr dwbl a llawr laminedig o ansawdd da drwy'r lle, yn ogystal â manau parcio dan ddaear.

100% Pris - £115,000)

70.495% Pris Prynu

£81,069.25



Cynhelir sesiynau i edrych ar y tŷ ar

22.03.18 (rhwng 5.00pm a 7.00pm)

Cysylltwch â Chyngor Caerdydd ar 029 2053 7366 neu e-bostiwch LCHO@caerdydd.gov.uk i drefnu i edrych ar y tŷ

Gwybodaeth am yr Eiddo

Cyntedd – Mynedfa eang gyda mynediad i gwprdd cadw a chwprdd awyrog, yn ogystal ag intercom mynediad ar y wal. Lloriau lamedig o ansawdd.

Lolfa (12'4" x 9'8") — lolfa agored o faint da gyda llawr lamedig o safon. Lle i fwrdd a chadeiriau.

Cegin (5'9" x 10'1")- cegin fodern lawn gan gynnwys unedau ar y llawr a'r wal. Lle i nwyddau gwyn, gan gynnwys peiriant golchi llestri. Lloriau lamedig o ansawdd.

Prif ystafell wely (12'4" x 9'8") — Ystafell wely dwbl o faint da, bydd y wardrob drych yn aros. Lloriau lamedig o ansawdd.

Ystafell folchi (7'5" x 5'5") — ystafell folchi fodern wen gyda baddon a chawod dros y baddon gyda sgrin wydr. Silffoedd i aros.

Polion llenni a bleindiau yn yr ystafell wely a'r ystafell fyw i aros. Bydd yr holl lorau drwy'r fflat yn aros.

Parcio – Lle parcio trwydded diogel dan ddaear heb ei ddyrannu gyda mynediad ffob.


Tâl Gwasanaeth - £346.82 fesul chwarter, sy'n cynnwys trethi dŵr, rhent tir ac yswiriant adeilad

Treth Gyngor – Band C

Dosbarth Tystysgrif Perfformiad Ynni – 67 (D) (Ceir adroddiad gyda'r pecyn cais)


Pris: £81,069.25 * Mae hyn yn cynrychioli rhanberchenogaeth 70.495% dan Gynllun Perchentyaeth â Chymorth. Bydd Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd yn cadw cyfran o 29.505% o'r eiddo.

Bydd y perchennog ar gael i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych pan fyddwch yn edrych ar y fflat.



Lleoliad -

102 Aquila House
Falcon Drive
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF10 4PE



Deddf Cam-ddisgrifio Eiddo 1991

Mae'r manylion hyn am y gwerthiant at ddibenion canllawiau cyffredinol yn unig. Nid ydynt yn ffurfio unrhyw ran o gynnig neu contract. Nid ydym wedi cynnal arolwg strwythurol ar yr eiddo nac unrhyw wasanaethau. Nid yw unrhyw o'r gosodiadau penodol y sonnir amdanynt yn y manylion hyn wedi eu profi. Rhoddir yr holl luniau, mesurau, cynlluniau llawr a phellteroedd y cyfeirir atynt fel canllaw yn unig ac ni ddylid dibynnu arnynt wrth brynu carpedi a gosodiadau eraill. Rhoddir manylion prydlas, taliadau gwasanaeth a rhent tir (lle bo'n berthnasol) yn unig a dylid eu cadarnhau gyda thrawsgludwr trwyddedig cyn cyfnewid contractau.